**Disgrifiad Swydd**

**Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan**

**Teitl:** **Cynorthwyydd Digwyddiadau ac Ymgysylltu**

**Graddfa/Cyflog:** Graddfa NJC SCP 13,

£26,873 cyfwerth â llawn-amser

**Oriau:** 3 diwrnod yr wythnos (22.5 awr) i gynnwys dydd Llun a dydd Mawrth; bydd angen aros dros-nos weithiau, yn ogystal â gweithio oriau anghymdeithasol

**Yn atebol i'r:** Rheolwr Ymgysylltu â'r Aelodau

**Lleoliad:** Bydd y rôl yn gofyn am deithio a gweithio o leoliadau ledled Cymru. Am y rhan fwyaf o'r amser, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio o gartref.

**Amcan:** Sicrhau bod aelodau Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn gallu cael mynediad i ddigwyddiadau mewnol ac allanol a chyfranogi.

## Prif Ddyletswyddau

### 1. Ymgysylltu â'r Aelodau

1.1 Rhoi cymorth i aelodau Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau.

1.2 Cynorthwyo aelodau Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan i deithio i gyfarfodydd a digwyddiadau.

1.3 Paratoi aelodau i gynrychioli Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau.

1.4 Cymryd cofnodion mewn gwahanol gyfarfodydd.

### 2. Digwyddiadau

2.1 Dod o hyd i leoliadau, cael dyfynbrisiau a gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau'r

aelodau.

2.2 Ymchwilio i opsiynau teithio a rhoi gwybod i’r aelodau.

2.3 Cynorthwyo aelodau i gwblhau ffurflenni hawlio treuliau.

2.4 Archebu tocynnau trên/teithio i aelodau.

2.5 Archebu gwestai ar gyfer aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau.

2.6 Cynorthwyo gyda threfnu gŵyl flynyddol PGCG, AdFest, i wneud yn siŵr ei bod yn hygyrch i aelodau.

2.7 Cynorthwyo tîm staff PGCG i gynnal AdFest trwy gefnogaeth i’r aelodau a chymorth gweinyddol.

2.8 Cynorthwyo i drefnu Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfodydd Cyffredinol Arbennig.

**3. Gwybodaeth**

3.1 Cynhyrchu dogfennau hawdd eu darllen at ddibenion gwybodaeth, ymgynghori ac ymgysylltu ag aelodau.

3.2 Cynorthwyo â dosbarthu papurau'r Cyngor Cenedlaethol i aelodau.

3.3 Cynorthwyo â chynnal stondinau arddangos/gwybodaeth ar ran Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan mewn digwyddiadau os oes angen.

**4. Arall**

Amlinelliad o'r prif ddyletswyddau yw'r disgrifiad swydd hwn. Bydd y disgrifiad swydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau neu anghenion o fewn Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.

Bydd deiliad y swydd yn cael ei gynnwys mewn trafodaeth am unrhyw newidiadau i'w ddisgrifiad swydd.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau eraill o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

**Goruchwyliaeth**
Mae'n ofynnol i bob aelod o staff fynychu cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd i sicrhau y gall Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan gyflawni eu dyletswyddau cyflogaeth ac i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi gyda'u datblygiad proffesiynol. Cyfrifoldeb deiliad y swydd yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn.

**Gofynion Iechyd a Diogelwch**
Mae gan bob aelod o staff ddyletswydd gofal statudol am eu diogelwch personol eu hunain a diogelwch eraill y gall eu gweithredoedd neu eu hesgeulustod effeithio arnynt. Mae'n ofynnol i weithwyr roi gwybod i'r Prif Weithredwr am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol a ddarperir gan Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.

**Datganiad Hyblygrwydd**
Amlinelliad o'r swydd yw cynnwys y disgrifiad swydd hwn, ac felly nid yw'n gatalog manwl gywir o ddyletswyddau a chyfrifoldebau. Bwriedir felly i'r swydd-ddisgrifiad fod yn hyblyg a chaiff ei adolygu a'i ddiwygio gan ystyried amgylchiadau sy'n newid, ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Gwybodaeth ychwanegol**
Fel wyneb cyhoeddus Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, bydd y Prif Weithredwr yn cynrychioli dynion a menywod ag anableddau dysgu ledled Cymru. Oherwydd hyn, mae'r Prif Weithredwr yn berson sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau anabledd dysgu.

Byddwn yn darparu offer swyddfa gartref fel desg, cadair, cyfrifiadur, argraffydd a ffôn symudol ar eich cyfer.
Byddwch hefyd yn cael lwfans swyddfa gartref o £26.00 y mis.

Gellir gweithio oriau yn hyblyg, yn unol â pholisi gweithio hyblyg ein mudiad.

**Datganiad ymddygiad**
Disgwylir i aelodau staff Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ymddwyn yn barchus a phroffesiynol bob amser.

**Cyfrinachedd**
Mae'n ofynnol i holl gyflogeion Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan gynnal cyfrinachedd y wybodaeth a gynhwysir yn ein cronfa ddata ac unrhyw wybodaeth sensitif neu bersonol arall a gedwir gan Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, yn enwedig o ran ein haelodaeth.